**COUNTY BOROUGH OF BLAENAU GWENT**

**REPORT TO:** **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE PWYLLGOR GWAITH**

**SUBJECT:** **PWYLLGOR GWAITH - DYDD MERCHER, 21 EBRILL 2021 DYDD MERCHER, 21 EBRILL 2021**

**REPORT OF:**

---

PRESENT: N. DANIELS (CADEIRYDD)

Councillors J. Collins
D. Davies
J. Mason
J. Wilkins

WITH:

| |
|---|
| Damien McCann (Swyddog) |
| Richard Crook (Swyddog) |
| Rhian Hayden (Swyddog) |
| Andrea Jones (Swyddog) |
| Louise Bishop (Swyddog) |
| Lynn Phillips (Swyddog) |

| ITEM | SUBJECT | ACTION |
|---|---|---|
| No. 1 | **CYFIEITHU AR Y PRYD**<br><br>Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar hyn o bryd. | |
| No. 2 | **YMDDIHEURIADAU**<br><br>Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan:-<br><br>Rheolwr Gyfarwyddwr<br>Prif Swyddog Interim Masnachol | |

| | | |
|---|---|---|
| **No. 3** | **<u>DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU</u>**<br><br>Gwnaed y datganiad buddiant dilynol:<br><br>Cynghorydd J. Wilkins – Eitem Rhif 7 – Cymorth Rhyddhad Busnes – Cymorth Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch | |
| | **<u>EITEMAU ER PENDERFYNIAD - MATERION ADDYSG</u>** | |
| **No. 4** | **<u>YSGOL GYNRADD GYMRAEG: ADRODDIAD CYFNOD HYSBYSIAD STATUDOL GWRTHWYNEBIAD</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg.<br><br>Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg mai diben yr adroddiad yw rhoi trosolwg o ganlyniadau ac argymhellion y cyfnod Hysbysiad Statudol/Gwrthwynebiad yn ymwneud â'r cynnig i adeiladu ysgol gynradd Gymraeg newydd 210 lle gyda darpariaeth gofal plant ar yr un safle yn Nhredegar/Cwm Sirhywi. Soniodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol am benderfyniadau blaenorol a gymerwyd yng nghyswllt ymgynghoriad ffurfiol a chymeradwyo yr adroddiad all-dro gan y Pwyllgor Gweithredol.<br><br>Amlinellodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y broses ymgynghori a nododd i'r cynnig gael ei gefnogi i raddau helaeth. Soniodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol ymhellach am yr ohebiaeth a dderbyniwyd ac amlinellodd y camau nesaf. Teimlid y caiff y gefnogaeth eang ei ddangos ymhellach gan y cyfnod Hysbysiad Statudol gyda dim ond 1 llythyr gwrthwynebu wedi dod i law. Roedd hyn yn ymwneud yn bennaf ag effaith y datblygiad ar y preswylydd a soniodd yr ohebiaeth fod y preswylydd yn cefnogi addysg cyfrwng Cymraeg.<br><br>Nododd yr Aelod Gweithredol Addysg fod yr adroddiad yn hunanesboniadol a daeth i ben drwy ddweud fod yr adroddiad yn dangos fod lefelau uchel o gefnogaeth ar gyfer yr ysgol Gymraeg newydd.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad ac Opsiwn 1; sef cytuno ar yr adroddiad Gwrthwynebiad, dogfennau cysylltiedig a'r llwybr gweithredu a symud ymlaen i'r cam Hysbysiad Penderfyniad (sydd ei angen o fewn 7 diwrnod o wneud y penderfyniad yn unol â Chod | |

| | | |
|---|---|---|
| | Trefniadaeth Ysgolion (2018, fersiwn 2) Llywodraeth Cymru. | |
| **No. 5** | **<u>CYNNIG I YMGYNGHORI AR GYNYDDU CAPASITI PEN Y CWM</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg.<br><br>Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg mai diben yr adroddiad yw gofyn i'r Pwyllgor Gweithredol gymeradwyo bod yr Awdurdod yn ymgynghori'n ffurfiol ar y cynnig i ymestyn capasiti Ysgol Arbennig Pen y Cwm o 120 i 175 disgybl a fyddai'n darparu ar gyfer y galw am leoedd. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol fod Pen y Cwm yn darparu ar gyfer disgyblion rhwng 3-19 oed gyda sbectrwm eang o anghenion addysgol arbennig cymhleth. Mae'r lleoliadau ar gael ar gyfer disgyblion Blaenau Gwent yn ogystal â disgyblion o ardaloedd awdurdodau lleol eraill. Mae mwy o alw nag o leoedd ar gael yn yr ysgol ar hyn o bryd gyda 141 o ddisgybl ar y gofrestr, sy'n cynnwys ystod eang o anableddau ac anawsterau.<br><br>Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg bod y cynnig i ymestyn capasiti Ysgol Arbennig Pen y Cwm o 120 i 175 lle o fis Medi 2021 er mwyn hwyluso ymestyn capasiti. Byddai'r Cyngor yn ailwampio'r amgylchedd dysgu presennol i greu gofodau ystafell ddosbarth ychwanegol a chyfleusterau cysylltiedig. Byddai'r Cyngor hefyd yn gweithio gyda'r ysgol i ddatblygu cynllun hirdymor i gefnogi twf a datblygiad parhaus.<br><br>Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y caiff y cynnig ei gyflwyno mewn dau ran, fel sy'n dilyn:-<br><br>Rhan 1, cynyddu capasiti Ysgol Arbennig Pen y Cwm o 120 i 175 lle i baratoi ar gyfer blwyddyn academaidd 2021/22, a fyddai'n cynnwys gwaith ffisegol i'r adeilad presennol yn cynnwys:-<br>• Symud y ganolfan Ôl-16 (yn cynnwys 3 ystafell ddosbarth, ystafell gyffredin, ystafell sgiliau bywyd, toiledau a chyfleusterau hylendid)<br>• Ad-leoli'r ardal weinyddol a gofod swyddfa presennol (yn cynnwys ystafell staff, ystafell PPA, cyfleuster cynadledda ac ystafell gyfarfod fach)<br>• Creu 2 ystafell ddosbarth cynradd ychwanegol<br>• Creu 1 ystafell ddosbarth uwchradd ychwanegol a chyfleusterau cysylltiedig | |

- Ad-leoli'r ardal chwarae meddal i'r llawr daear
- Ailddatblygu'r ystafell Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Rhan 2, datblygu cynllun hirdymor i sicrhau capasiti ychwanegol i hwyluso twf a datblygiad cyson.

Nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol fuddion a manteision y cynnig ac amlinellu gofynion yr ymgynghoriad. Nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol gywiriad i'r dyddiad a amlinellir a ddylai ddarllen 6 Mehefin 2021 ac nid 6 Mai 2021 fel a nodwyd. Mae'r cyfnod ymgynghori hwn yn cynnwys 20 diwrnod ysgol.

PENDERFYNWYD yn unol â hynny.

Ymhellach amlinellodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y goblygiadau cyfalaf a refeniw a nododd y caiff y costau cyfalaf eu cyllido drwy grantiau Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, yn nhermau refeniw dywedwyd fod Ysgol Arbennig Pen y Cwm yn cael ei chyllido yn unol â pholisi Cyllido Teg Cyngor Blaenau Gwent ac y byddai'n derbyn adnoddau ar yr un sail ag unrhyw ysgol arall o fewn Blaenau Gwent, yn seiliedig ar nifer y disgyblion ac arwynebedd adeilad yr ysgol. Ym mis Ebrill 2020/21 roedd cyllid disgyblion yn Ysgol Arbennig Pen y Cwm ar gyfer unedau disgyblion wedi pwysoli o ran oedran a chyllid categori yn £2,277,494; mae'r ffigur hwn yn seiliedig ar y 141 disgybl ar y gofrestr. Yn seiliedig ar gost cyfartalog disgybl o £16,925, nodwyd y byddai costau cyllid AWPU/categori ar gyfer 175 disgybl tua £2.9 miliwn, oedd yn gynnydd o £575,450, pe byddai pob lle yn cael eu dyrannu'n llawn.

Nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol hefyd fod gan yr Awdurdod 20 disgybl ADY ar hyn o bryd tu allan i'r Awdurdod Lleol ar gost o £896,000. Pe gallai Ysgol Arbennig Pen y Cwm gynyddu capasiti, byddai cyfleoedd i ystyried gwneud darpariaeth addysg ar gyfer rhai o'r 20 disgybl yn ôl ym Mlaenau Gwent.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol at Atodiad 2 sy'n amlinellu'r dadansoddiad sensitifrwydd am y gymysgedd o ddisgyblion ac amlinellodd ystod o opsiynau cyllid o'r Gyllideb Ysgol Unigol. Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi manylion y risgiau pe na symudid ymlaen â'r cynnig yn nhermau lleoliadau a risg ariannol lleoedd allan o'r sir ar gyfer yr Awdurdod.

Croesawodd yr Aelod Gweithredol Addysg yr adroddiad a theimlai y byddai'r cynnig o fudd i fwy o blant a phobl ifanc drwy sicrhau fod

| | | |
|---|---|---|
| | ganddynt fynediad at ddysgu yn nes gartref. Cytunodd yr Arweinydd gyda'r sylwadau a wnaed a theimlai fod yr adroddiad yn dangos ymrwymiad parhaus Blaenau Gwent i'n dysgwyr.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad, Opsiwn 1 a dogfennau cysylltiedig a bod y Pwyllgor Gweithredol yn cytuno'n ffurfiol i ymgynghori ar y cynnig. | |
| **No. 6** | **EITEM ER PENDERFYNIAD - MATERION GWASANAETHAU CORFFORAETHOL** | |
| **No. 7** | **RHYDDHAD ARDRETHI BUSNES - RHYDDHAD MANWERTHU, HAMDDEN A LLETYGARWCH - 2021/22**<br><br>Datganodd y Cynghorydd Wilkins fuddiant yr yr eitem hon ac arhosodd yn bresennol yn ystod trafodaethau.<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau.<br><br>Nododd y Prif Swyddog Adnoddau fod yr adroddiad yn hwyr a oedd oherwydd cadarnhad Llywodraeth Cymru y byddid yn ymestyn y cynllun i 2021/22. Cyfeiriodd y Prif Swyddog at yr adroddiad sy'n gofyn i'r Pwyllgor Gweithredol ar ran y Cyngor i fabwysiadu Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch – cynllun 2021/22, fel cymorth ardrethi ar ddisgresiwn adran 47 ar gyfer 2021/22.<br><br>Dywedodd y Prif Swyddog fod ymateb Llywodraeth Cymru i Covid-19 ac adferiad wedi rhewi ardrethi busnesau 2021/22 ar lefelau 2020/21. Er mwyn rhoi ysgogiad cyllidol i fusnesau yng Nghymru, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymestyn cyllid grant i ddarparu Cynllun Rhyddhau Ardrethi Busnes, Hamdden a Lletygarwch ar gyfer 2021/22. Ni chafodd yr union ddyraniad cyllid i Flaenau Gwent ar gyfer cynllun 2021/22 ei gadarnhau hyd yma, fodd bynnag rhagwelwyd amcangyfrif dyraniad o £3.5m i ganiatáu cyflenwi'r cynllun oedd yn seiliedig ar asesiad dechreuol o fudd i 328 busnes fel canlyniad i fabwysiadu'r cynllun.<br><br>Croesawodd yr Arweinydd yr adroddiad a'r gefnogaeth barhaus gan Lywodraeth Cymru yn y maes hwn.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad ac Opsiwn 2; sef mabwysiadu Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch – cynllun 2021/22 ar ran y Cyngor, i atodi cynllun | |

| | | |
|---|---|---|
| | rhyddhad ardrethi ar ddisgresiwn y Cyngor. | |